



# Raspberry Pi Foundation

## Canllawiau diogelu: Cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu

Yn y ddogfen hon byddwn ni'n darparu canllawiau ar yr arferion gorau wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau cyfathrebu mewn cysylltiad â'ch gweithgaredd Raspberry Pi Foundation sy'n cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr (e.e. Code Club/Coder Dojo/Raspberry Jam). Ni ddylid addasu'r canllawiau hyn.

Fel rheol, ni chewch gyfnewid negeseuon preifat â phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn eich sesiwn neu eich gweithgaredd, nid drwy eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol preifat na chyfrifon y gweithgaredd. Ar ben hynny, ni chewch roi unrhyw luniau neu fideos sy'n dangos person ifanc ar unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol oni bai fod gennych chi'r caniatâd priodol. At ddiben y ddogfen hon, ystyr person ifanc ydy unrhyw un dan 18 oed.

Isod mae canllawiau ar ddefnyddio rhai llwyfannau cyfryngau cymdeithasol poblogaidd fel rhan o redeg eich gweithgaredd. Efallai eich bod yn defnyddio llwyfannau eraill – bydd y pwyntiau cyffredinol sy'n cael eu codi yma yn dal yn berthnasol.

Gallwch grybwyll y canllawiau hyn â phobl ifanc a'u rhieni wyneb yn wyneb pan fyddwch yn esbonio 'rheolau' eich grŵp gweithgareddau.

### **E-bost**

Ni chewch gyfathrebu ar sail un-i-un â phobl ifanc dros e-bost.

Os oes angen i chi gyfathrebu â pherson ifanc dros e-bost, rhaid cynnwys rhiant/gwarcheidwad, neu athro ar gyfer gweithgaredd yn yr ysgol, yn y neges bob amser. Os nad oes gennych gyfeiriad e-bost rhiant neu athro, gofynnwch i'r person ifanc amdano yn y lle cyntaf, a chynnwys gwirfoddolwr arall yn y neges hon.

Os ydych yn anfon e-bost at nifer o bobl, cuddiwch eu manylion cyswllt bob amser i osgoi rhannu cyfeiriadau e-bost rhieni neu bobl ifanc â derbynwyr eraill yr e-bost.

### **Facebook**

Ni chewch fod yn ffrindiau Facebook â'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn eich gweithgaredd.

Cewch redeg grŵp Facebook ar gyfer eich gweithgaredd a chyfathrebu yn y grŵp hwn at ddiben trefnu sesiynau neu roi cymorth ar gyfer prosiectau. Ond ni chewch gyfathrebu ar sail un-i-un drwy anfon negeseuon uniongyrchol at bobl ifanc nac ymateb i'w negeseuon uniongyrchol hwythau.

### **Twitter ac Instagram**

Ni chewch ddilyn cyfrifon unrhyw bobl ifanc nac anfon negeseuon uniongyrchol atynt ar y llwyfannau hyn. Caiff pobl ifanc ddilyn cyfrifon eich gweithgaredd os oes rhai.

### **WhatsApp**

Ni chewch ddefnyddio WhatsApp i gyfathrebu â'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn eich gweithgaredd.

Cewch greu grwpiau gyda gwirfoddolwyr eraill dros 18 oed i drefnu eich gweithgaredd.

### **Snapchat**

Ni chewch fod yn ffrindiau Snapchat â'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn eich gweithgaredd.

### **LinkedIn**

Ni chewch anfon negeseuon uniongyrchol at bobl ifanc nac ymateb i'w negeseuon uniongyrchol hwythau ar LinkedIn.